# P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am yr angen brys i ddarparu uned anhwylderau bwyta arbenigol yng Nghymru.

Gwybodaeth ychwanegol:

Hoffem weld uned anhwylderau bwyta arbenigol yn cael ei hadeiladu yng Nghymru i leihau'r pwysau a'r anghyfleustra o orfod teithio mor bell o aelodau'r teulu a chyfeillion drwy orfod mynd i Loegr i gael triniaeth. Yn 2007, cydnabu'r Llywodraeth nad oedd triniaeth arbenigol ar gael yng Nghymru a bod angen i'r sefyllfa hon newid, ond bum mlynedd yn ddiweddarach rydym yn dal i aros am y newid hwnnw. Gwn o brofiad personol pa mor anodd yw bod mewn ysbyty mor bell o gartref, a chredaf y byddai cael uned anhwylderau bwyta yng Nghymru yn gwneud y broses o gael triniaeth ac o wella yn rhwyddach i ddioddefwyr o Gymru.

**Prif ddeisebydd:** Keira Marlow

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 8 Hydref 2013

**Nifer y llofnodion** : 526